# Golwg ar iaith

Wyt ti eisiau help gyda gramadeg Gymraeg?

Wel, dyma'r llyfr i ti, felly, achos mae'n cynnwys:

- ymarferion ac atebion
- help ymarferol
- syniadau am ble i gael mwy o wybodaeth.

Mae rhai o'r ymarferion yn debyg i ymarferion Cymraeg Ail Iaith Safon Uwch, ond maen nhw'n gallu helpu unrhyw un sy eisiau gwella'u Cymraeg.

Mae'n bosib defnyddio'r llyfr ar dy ben dy hun – neu mewn dosbarth.

Pob hwyl i ti gyda'r Gymraeg!

caa
Prifysgol Cymru Aberystwyth

caa 25 1982-2007

ISBN 978-1-84521-163-9

9 781845 211639

# Golwg ar iaith

Non ap Emlyn

caa
Prifysgol Cymru Aberystwyth

# Golwg ar iaith

Wyt ti eisiau help gyda gramadeg Gymraeg?

Wel, dyma'r llyfr i ti, felly, achos mae'n cynnwys:

- ymarferion ac atebion
- help ymarferol
- syniadau am ble i gael mwy o wybodaeth.

Mae rhai o'r ymarferion yn debyg i ymarferion Cymraeg Ail Iaith Safon Uwch, ond maen nhw'n gallu helpu unrhyw un sy eisiau gwella'u Cymraeg.

Mae'n bosib defnyddio'r llyfr ar dy ben dy hun – neu mewn dosbarth.

Pob hwyl i ti gyda'r Gymraeg!

caa Prifysgol Cymru Aberystwyth

caa 25 1982-2007

ISBN 978-1-84521-163-9

9 781845 211639 >

# Golwg ar iaith

caa Prifysgol Cymru Aberystwyth

Non ap Emlyn

ⓗ Prifysgol Cymru Aberystwyth, 2007 ©
Mae hawlfraint ar y deunyddiau hyn ac ni ellir eu hatgynhyrchu na'u cyhoeddi heb ganiatâd perchennog yr hawlfraint.

Cyhoeddwyd gan Y Ganolfan Astudiaethau Addysg, Aberystwyth
Gwefan: www.caa.aber.ac.uk

Noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**ISBN: 978 1 84521 163 9**

Awdur: Non ap Emlyn
Paratoi deunydd ar gyfer y wasg: Fflur Pughe a Delyth Ifan
Dylunio: Richard Pritchard
Argraffu: Y Lolfa

Cydnabyddiaethau

Diolch i: Cath Holgate, Llinos Jones, Pryderi Jones a Delyth Rees am eu harweiniad gwerthfawr.

Diolch hefyd i athrawon Adrannau'r Gymraeg yn yr ysgolion canlynol am dreialu'r deunydd ac am eu sylwadau adeiladol: Ysgol Alun, Yr Wyddgrug; Ysgol Greenhill, Dinbych y Pysgod; Ysgol Gyfun Tregib, Llandeilo.

# CYNNWYS

Geiriau pwysig 1
Pwysig ... Pwysig ... Pwysig 2
Pob math o rifau! 6
Amser 9
Berfau: Y presennol 13
Y perffaith 16
Yr amherffaith 17
Y gorberffaith 19
Y gorffennol 20
Y dyfodol 25
Y presennol / y dyfodol cryno 28
Yr amodol (byddwn i / baswn i) 29
Ffurfiau arbennig (dylwn i / hoffwn i / gallwn i) 31
Y gorchmynnol 33
Yr amhersonol 35
Ansoddeiriau 36
Adferfau 41
Y Genidol 43
Rhagenwau 44
Arddodiaid 50
Ysgrifennu brawddegau 54
Y cymal enwol 56
Y cymal perthynol 61
Y cymal adferfol 64
Geiriau arbennig 66
Atebion 67

## RHAGAIR

Yn y llyfr yma mae

- ymarferion gramadeg
- help gyda gramadeg
- syniadau am ble i gael mwy o wybodaeth.

Mae 'llyfr ymarferion gramadeg' yn swnio'n ddiflas ac yn anodd. Ond peidiwch â chael braw. Ewch drwy'r llyfr bob yn dipyn. Canolbwyntiwch ar un peth ar y tro.

Cyn gwneud yr ymarferion, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n deall y ramadeg.

- Adolygwch yn y llyfrau **Y Chwiliadur Iaith (Ch.I.)** a **Cymraeg Da (C.D.)**. Cofiwch: mae mwy o ymarferion yn y llyfrau yna hefyd.
- Darllenwch y bocsys help.

| | |
|---|---|
| swnio | *(to) sound* |
| braw | *fright* |
| bob yn dipyn | *bit by bit* |
| canolbwyntio | *(to) concentrate* |
| ar y tro | *at a time* |

Pob hwyl i chi!

Non ap Emlyn
Chwefror 2007

## LLYFRYDDIAETH


ap Emlyn, Non, *Y Chwiliadur Iaith*, Y Ganolfan Astudiaethau Addysg, 2002
Gruffudd, Heini, *Cymraeg Da*, Y Lolfa, 2000


## GEIRIAU PWYSIG

### BERFENWAU

| | |
|---|---|
| ateb | *(to) answer* |
| cyfateb | *(to) correspond* |
| cyfeirio at | *(to) refer to* |
| cyfieithu | *(to) translate* |
| cyfrif | *(to) count* |
| cyfuno | *(to) combine* |
| cysylltu | *(to) link, join* |
| cywiro | *(to) correct* |
| chwilio am | *(to) look for* |
| darllen | *(to) read* |
| defnyddio | *(to) use* |
| disgrifio | *(to) describe* |
| dysgu | *(to) learn* |
| gorffen | *(to) finish* |
| gwirio | *(to) check* |
| gwneud | *(to) do* |
| llunio | *(to) form* |
| llenwi | *(to) fill* |
| meddwl | *(to) think* |
| newid | *(to) change* |
| pwysleisio | *(to) emphasise* |
| rhestru | *(to) list* |
| tanlinellu | *(to) underline* |
| treiglo | *(to) mutate* |
| ysgrifennu | *(to) write* |

### ENWAU

| | |
|---|---|
| angen | *need* |
| amod, amodau | *condition,-s* |
| brawddeg, brawddegau | *sentence,-s* |
| bwlch, bylchau | *gap,-s* |
| gwall, gwallau | *mistake,-s* |
| gorchymyn, gorchmynion | *command,-s* |
| priod-ddull, priod-ddulliau | *idiom,-s* |
| treiglad llaes | *aspirate mutation* |
| treiglad meddal | *soft mutation* |
| treiglad trwynol | *nasal mutation* |
| terfyniad, terfyniadau | *ending,-s* |
| ymadrodd, ymadroddion | *expression,-s* |
| ystyr | *meaning* |

### ANSODDEIRIAU

| | |
|---|---|
| addas | *suitable* |
| benywaidd | *feminine* |
| cadarnhaol | *affirmative, positive* |
| cywir | *correct* |
| eglur | *clear* |
| gwrywaidd | *masculine* |
| negyddol | *negative* |

### ARDDODIAID

| | |
|---|---|
| o flaen | *in front of* |
| isod | *below* |
| uchod | *above* |

### YMADRODDION DEFNYDDIOL

| | |
|---|---|
| cymaint â phosib | *as many as possible* |
| sydd wedi eu tanlinellu | *that have been underlined* |

# PWYSIG ... PWYSIG ... PWYSIG

Ch.I. tud. 11 | C.D. tud. 12

## A Yr Wyddor

a Ysgrifenna'r wyddor yn Gymraeg.
b Beth ydy'r llafariaid Cymraeg?
c Beth ydy'r cytseiniaid Cymraeg?

## B Defnyddio'r geiriadur

a Chwilia am y geiriau isod yn y geiriadur. Beth ydy ystyr y geiriau?

| | | | |
|---|---|---|---|
| chwildroi | fferru | llwydo | rysáit |
| cystadleuol | fila | llwyddiannus | rhaglennu |

b Chwilia am y geiriau sydd wedi eu tanlinellu isod yn y geiriadur. Beth ydy ystyr y geiriau?

Methu ffeindio gair? Ydy e wedi treiglo?

1. Mae gan y ddrama blot a <u>chymeriadau</u> diddorol.
2. Mae rhywbeth rhyfedd yn digwydd yng <u>Ngolygfa</u> 3.
3. Rydw i wedi darllen llawer o <u>farddoniaeth</u> Gymraeg.
4. Mae dwy <u>linell</u> arbennig o dda yn y gerdd.
5. Mae llawer o <u>densiwn</u> ar ddiwedd y gerdd.

## C 'r / yr / y

Ch.I. tud. 12 | C.D. tud. 135

Ysgrifenna **'r**, **yr**, neu **y** yn y bylchau.

Es i i ...... dref gyda fy ffrindiau nos Sadwrn. Aethon ni ar ...... bws achos roedd hi'n bwrw glaw. Roedd ...... dref yn brysur iawn achos roedd cyngerdd mawr yn ...... parc i godi arian at ...... ysbyty. Roedd grwpiau mawr yn canu yno – ac roedd dau fand o ...... ysgol hefyd. Roedden nhw'n eitha da. Roedd pawb yn mwynhau. Roedd ...... bobl ifanc yn dawnsio ac roedd rhai o ...... oedolion yn canu hen ganeuon gydag un o ...... grwpiau. Roedd ...... noson yn wych!



## Ch 'r / yr / y + treiglad meddal

Ch.I. tud. 12 | C.D. tud. 176

Treigla'r geiriau sydd wedi eu tanlinellu.

Os wyt ti'n treiglo'r **g**, bydd rhaid i ti newid **y** yn **yr**.

1. Mae hi'n mwynhau'r <u>cerddoriaeth</u>.
2. Darllenwch y <u>taflen</u>.
3. Rydyn ni wedi darllen y <u>drama</u>.
4. Mae'r <u>barddoniaeth</u> yn ddiddorol.
5. Mae'r <u>cerdd</u> yn sôn am Gymru.
6. Roedd Siôn yn cerdded yn y <u>gardd</u>.
7. Roedd yr athro'n hwyr i'r <u>gwers</u>.
8. Roedd y <u>geneth</u> yn rhedeg yn y ras.
9. Roedd y <u>golygfa'n</u> anhygoel.
10. Cyrhaeddodd y trên y <u>gorsaf</u>.

## D a / ac / a'r

Ch.I. tud. 13 | C.D. tud. 177

Llenwa'r bylchau.

Mae **ac y** yn anghywir. Mae **a'r** yn gywir!

1. Rhaid i ni astudio cerddi ...... stori.
2. Mae'r cerddi ...... stori'n dda.
3. Rydyn ni'n ysgrifennu erthyglau ...... adroddiadau.
4. Rydyn ni'n mynd am dripiau ...... rydyn ni'n mynd i aros yn Nant Gwrtheyrn.
5. Nawr, rydw i'n edrych ymlaen at yr arholiadau ...... am y canlyniadau. Byddan nhw'n ardderchog ...... bydd y tiwtor yn hapus iawn gyda fi.

## Dd a + treiglad llaes

Ch.I. tud. 13 | C.D. tud. 177

Ysgrifenna'r geiriau wedi eu treiglo'n gywir yn y bylchau.

1. Rhaid i ni baratoi traethawd a ...............(cyfweliad)
2. Rhaid i ni baratoi cyfweliad a ...............(traethawd)
3. Rydyn ni'n darllen dramâu a .............. (cerddi)
4. Rydyn ni'n darllen am helyntion a .............. bywyd. (profiadau)
5. Mae'r cyfan yn ddiddorol a .............. (cyffrous)